## Cwestiynau Ymgynghori

| **Cyfrinachedd** |
|---|
| Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.<br>Os nad ydych am inni ddangos eich enw a'ch cyfeiriad ar unrhyw ddogfennau y byddwn yn eu paratoi, ticiwch yma<br><br>Os nad ydych am inni ddangos eich ymateb ar unrhyw ddogfennau y byddwn yn eu paratoi, ticiwch yma |

Cwestiynau am ddemograffeg:

| | | |
|---|---|---|
| **Enw** | Comisiynydd y Gymraeg | |
| **Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?** | Sefydliad | |
| **Ai yng Nghymru y mae'ch cartref chi neu gartref eich sefydliad?** | Ie | x |
| | Na, ond dw i neu fy sefydliad yn gweithio yng Nghymru | |
| | Na - a dydyn ni ddim yn gweithio yng Nghymru | |
| **Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?** | Ydw | |
| | Na | |
| **Hanner cyntaf y cod post (4 digid)** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Nodwch ba un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi neu eich sefydliad orau (dewiswch un yn unig)** | Amaeth | |
| | Coedwigaeth | |
| | Yr Amgylchedd | |
| | Milfeddygol | |
| | Twristiaeth/Lletygarwch | |
| | Cadwyni cyflenwi bwyd a phren | |
| | Y Sector Cyhoeddus | x |
| | Sector Preifat | |
| | Trydydd Sector | |
| | Undeb Llafur/Cynrychiolydd | |

| | |
|---|---|
| Ymchwil/Academia | |
| Arall | |

| | | |
|---|---|---|
| **Os ydych chi wedi dweud eich bod yn ffermwr nodwch eich prif weithgarwch ffermio (dewiswch un yn unig).** | Defaid | |
| | Bîff | |
| | Llaeth | |
| | Âr | |
| | Garddwriaeth | |
| | Dofednod | |
| | Cymysg | |
| | Arall | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ar hyn o bryd a oes gennych chi hawliau i bori tir comin?** | Oes | |
| | Na | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n ffermwr tenant?** | Ydw | |
| | Na | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n derbyn BPS?** | Ydw | |
| | Na | |

| | | |
|---|---|---|
| **Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, beth yw'ch oed?** | O dan 18 oed | |
| | 18-34 | |
| | 35-49 | |
| | 50-64 | |
| | 65+ | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n cymryd rhan mewn cynllun** | Ydw | |
| | Na, ond dw i wedi cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y gorffennol | |

| | | |
|---|---|---|
| **amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd?** | Na, dw i erioed wedi cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol. | |

| **Fframwaith** |
|---|
| C1. Bydd y Cynllun yn cefnogi ein sector amaethyddol i'r tymor hir i ymateb i heriau ac anghenion sy'n newid, gan gyfrannu at yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yn eich barn chi, beth all gryfhau'r gefnogaeth hon?<br><br>Rydym yn pryderu y byddai cyflwyno'r Cynllun yn ei wedd presennol yn niweidiol i hyfywedd y Gymraeg ac yn tanseilio strategaeth *Cymraeg 2050* y Llywodraeth. Y diwydiant amaethyddol yw'r sector cyflogaeth â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae busnesau amaethyddol yn cynnal llawer o gymunedau gwledig lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bob dydd. Mae sicrhau ffyniant yr economi wledig ac amaethyddol felly yn hollbwysig ar gyfer sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg.<br><br>Fel rhan o'i strategaeth ar gyfer cefnogi cymunedau Cymraeg, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Comisiwn Cymunedau Cymraeg, fydd yn gyfrifol am ystyried ffyrdd o gryfhau sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Yn ei bapur safbwynt cychwynnol, mae'r Comisiwn yn datgan bod y diwydiant amaethyddiaeth a'i diwylliant yn rhan greiddiol o wead cymdeithasol ardaloedd gwledig sy'n Gymraeg eu hiaith.<br><br>Mae asesiad effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar y Gymraeg yn cydnabod pwysigrwydd anuniongyrchol y sector amaethyddol i hyfywedd y Gymraeg. Mae'r asesiad effaith yn cynnig dadansoddiad o sut y gallasai newidiadau i'r system gymorth effeithio'n negyddol ar y cymunedau hynny, ac rydym yn cytuno â'r casgliad bod angen lleihau'r aflonyddwch i'r sector er mwyn lleihau sgil effeithiau negyddol ar hyfywedd y Gymraeg mewn cymunedau gwledig. Er hynny, nid yw'r asesiad effaith na'r Cynllun yn egluro mewn manylder sut y bwriedir gwneud hyn. Mae risg sylweddol felly y bydd cyflwyno'r Cynllun â goblygiadau andwyol i'r Gymraeg.<br><br>Mae'r ddogfen *Effeithiau economaidd posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy* yn cadarnhau ein pryderon uchod. Mae'r asesiad effaith economaidd yn amcangyfrif y bydd cyflwyno'r Cynllun yn golygu colledion allbwn cyffredinol o £125m y flwyddyn, gostyngiadau mewn niferoedd da byw o 122,000, a lleihau llafur ar ffermydd o 11%. Mae'r darlun cyffredinol o effeithiau economaidd y cynllun yn awgrymu y bydd dirywiad ym maint yr economi wledig o gyflwyno'r Cynllun. Nid yw'n amlwg inni i ba raddau yr ystyriwyd canfyddiadau'r asesiad effaith ar y Gymraeg, nac ychwaith oblygiadau'r asesiad effaith economaidd ar y Gymraeg, wrth ddatblygu'r Cynllun. Mae hyn yn wendid amlwg o ystyried bod cydnabyddiaeth yn yr asesiad effaith y buasai'r Cynllun fel y mae yn gallu effeithio yn negyddol ar hyfywedd y Gymraeg, er |

bod y sector hwn yn rhan allweddol o strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'n destun pryder felly fod Llywodraeth Cymru wedi llunio Cynllun a allasai danseilio un o'r amcanion y bwriadwyd ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy yn Neddf Amaeth (Cymru) 2023 sef 'cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd'.

Mae'r Cynllun yn dangos uchelgais Llywodraeth Cymru i wella bioamrywiaeth Cymru a'r amgylchedd naturiol er mwyn cyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd eang, ac rydym yn cefnogi'r amcanion hynny. Mae papur safbwynt y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn gweld potensial i economi ardaloedd gorllewinol Cymru ymgryfhau yn sgil cyfleoedd economaidd trawsnewidiad gwyrdd, yn enwedig gan fod yr ardaloedd hynny yn meddu ar lawer o adnoddau naturiol perthnasol. Mae'n gwneud y cysylltiad rhwng yr angen i gefnogi ffyniant economaidd cymunedau Cymraeg, a'r cyfleoedd cyffrous sy'n bodoli yn sgil datblygiadau economaidd sero net.

Rydym yn cytuno ag asesiad y Comisiwn ei bod yn bwysig cyd-gysylltu amaethyddiaeth, datblygu cefn gwlad, a gwarchod byd natur ochr-yn-ochr â gosod sylfaen gadarn ar gyfer ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol. Ein pryder yw bod y cynllun presennol, a'r effaith economaidd sy'n cael ei awgrymu yn yr asesiad economaidd, yn mynd i danseilio ein cymunedau gwledig, ac felly hyfywedd y Gymraeg. Nid yw'r asesiad effaith ar y Gymraeg yn ystyried yn ddigonol sut i liniaru effeithiau lleihau cyfraniad y sector amaeth i'r economi wledig. Dylid esbonio beth yw cynllun ehangach y Llywodraeth ar gyfer adfywio a thyfu'r economi wledig a manteisio ar y cyfleoedd economaidd a ddaw o'r trawsnewidiad gwyrdd i ddatblygu ac uwchsgilio'r gweithlu presennol.

Er mwyn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 mae'n rhaid tyfu a chryfhau yr economi wledig a'r sector amaethyddol, nid ei lleihau. Mae'n hanfodol nad yw'r Cynllun yn arwain at ansefydlogi'r ymdrechion i gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae gweddill ein hymateb yn manylu ar welliannau y gallai'r Llywodraeth eu cyflwyno er mwyn prif ffrydio'r Gymraeg o fewn y Cynllun presennol. Er hynny, ein prif safbwynt yw fod angen i'r Llywodraeth sicrhau bod y Cynllun yn cwrdd â holl amcanion y Ddeddf Amaethyddiaeth, ac yn sicrhau bod dyfodol llewyrchus i'r economi wledig yng Nghymru, a thrwy hynny 'gynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd'.

**Gweithredoedd Cyffredinol**

C2. Bydd gofyn i bob fferm yn yr SFS fod ag o leiaf 10% o orchudd o goed, ac i reoli o leiaf 10% o'r fferm er lles bioamrywiaeth.
a) Beth yw eich barn am y gofynion hyn?
b) Pa gefnogaeth a allai fod ei hangen arnoch i'w cynnal?

C.3 Ar wahân i'r gofynion o 10% o goetir a cynefin, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol:
a) O fantais i fusnes eich fferm?

b) Yn rhoi set o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd y bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn talu amdanyn nhw?

C4. Trwy lunio adroddiadau data fferm, byddwch yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru allu cadarnhau'ch bod wedi cynnal gweithredoedd a byddan nhw'n eich helpu i wneud penderfyniadau am eich fferm. Yn eich barn chi, a yw gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol o ran llunio adroddiadau yn briodol?

C5. Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn rhoi cymorth ychwanegol yn ystod y Cyfnod Pontio. Yn eich barn chi, a yw hyn yn briodol wrth gyflwyno'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol?

Dylid darllen ein hymateb i'r cwestiwn hwn yng nghyd-destun ein hymateb i gwestiwn 1 uchod. Yno rydym yn egluro mai cynnig gwelliannau y gallai'r Llywodraeth eu cyflwyno er mwyn prif ffrydio'r Gymraeg o fewn y Cynllun presennol yr ydym wrth ateb y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod angen i'r Llywodraeth sicrhau bod y Cynllun yn ei hanfod yn cwrdd â holl amcanion y Ddeddf Amaeth, gan gynnwys yr amcan o 'gynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd'.

Mae'r astudiaeth effaith ar y Gymraeg yn manylu pa mor bwysig yw'r diwydiant amaeth i wytnwch y Gymraeg a llwyddiant strategaeth *Cymraeg 2050*. Mae'n awgrymu bod ffermwyr sy'n ffermio i ennill bywoliaeth, ac sy'n fwy tebygol o fanteisio ar gynlluniau cymorth y llywodraeth, hefyd yn ffermwyr sy'n fwy tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg ac yn aelodau o deuluoedd ffermio sydd wedi'u hen sefydlu, ac sydd â lefelau uwch o gyfranogiad yn eu cymunedau lleol. Esbonnir ymhellach bod ffermydd bach yn fwy tebygol o dderbyn taliadau Cynllun y Taliad Sengl, ac y byddai unrhyw newidiadau i'r system gymorth yn fwy tebygol o effeithio arnynt, naill ai mewn ffordd gadarnhaol neu ffordd negyddol. Rydym yn cytuno â'r asesiad y gallai newidiadau i strwythur y sector amaethyddol fod â'r potensial i newid cyfraniad y sector at wydnwch y Gymraeg. Rydym felly yn ystyried bod y cynnig i liniaru'r risg o effeithio'n negyddol ar y ffermydd bach trwy'r Taliad Sefydlogrwydd yn sylfaenol ac yn hanfodol.

**Sut bydd y Cynllun yn cael ei redeg**

C6. Rydym wedi cynnig y dylai fod gan ymgeiswyr reolaeth lwyr ar eu tir am 10 mis a'u bod yn cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol am flwyddyn lawn y cynllun (12 mis). Yn eich barn chi, a yw'r cyfnod o 10 mis yn ddigon?

C7. Rydym yn cynnig bod pawb yn y Cynllun yn defnyddio'r un gyfrifiannell carbon. A ydych yn cytuno a sut y gallwn eich cefnogi i wneud hyn?

C8. Er mwyn cael parhau i gynnal y safonau uchel ar ein ffermydd, rydym yn cynnig ffordd gymesur o ymdrin â mesurau rheoli a sancsiynau, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth ychwanegol fel amod o gael taliad y Cynllun. Beth yw'ch barn am hyn?

Dylid darllen ein hymateb i'r cwestiwn hwn yng nghyd-destun ein hymateb i gwestiwn 1 uchod. Yno rydym yn egluro mai cynnig gwelliannau y gallai'r Llywodraeth eu cyflwyno er mwyn prif ffrydio'r Gymraeg o fewn y Cynllun presennol yr ydym wrth ateb y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod angen i'r Llywodraeth sicrhau bod y Cynllun yn ei hanfod yn cwrdd â holl amcanion y Ddeddf Amaeth gan gynnwys yr amcan o 'gynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd'.

Mae'r Cynllun yn sôn am "ddefnyddio prosesau'r cynllun lle medrir, i sgorio a dewis yn unol ag amcanion rheoli tir yn gynaliadwy (SLM) os bydd y gyllideb yn cyfyngu ar faint fydd yn cael cymryd rhan". Yng nghyhoeddiad y Llywodraeth *Cyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy*, mae "gwarchod a gwella cefn gwlad a'i draddodiadau diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg" yn un o'r 4 amcan sy'n sail i'r fframwaith. Er hynny, nid yw'r amcan yma i'w weld yn y rhestr o Weithredoedd Opsiynol sy'n cael eu cynnig yn Atodiad 2 y Cynllun.

Esbonia'r astudiaeth o'r effaith ar y Gymraeg "efallai y bydd lle i gynnwys camau gweithredu o fewn Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at iechyd a bywiogrwydd yr iaith o fewn y diwydiant amaethyddol". Mae'n siomedig nad yw'r cynllun yn cynnig arweiniad ar sut i fynd i'r afael â hyn, gan y byddai hynny yn ffordd dda o ddangos bod y Llywodraeth o ddifri am wireddu un o amcanion y Ddeddf o gefnogi'r Gymraeg o fewn cyd-destun amaethyddol mewn modd uniongyrchol. Dylid cynnwys arweiniad o fewn y cynllun sy'n dangos sut y gallai ymdrechion ffermwyr gyfrannu at iechyd a bywiogrwydd y Gymraeg o fewn y diwydiant, a bod hynny yn arwain tuag at gyllid trwy'r Cynllun.

C9. Bydd proses apelio Llywodraeth Cymru yn cynnig trefn effeithiol ac effeithlon i ni. A oes unrhyw reswm pam y dylem beidio â'i dilyn?

**Dull Talu**

C10. Hoffem glywed eich barn am y cynigion ar gyfer:

a) taliad sylfaenol cyffredinol SFS
b) taliad sefydlogrwydd SFS

**Cyfnod Pontio**

C11. Efallai y bydd ffermwyr y tu allan i'r Cynllun am gael help i gynnal gweithredoedd tebyg i'r rhai a gynigir yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Yn eich barn chi, a ddylai ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun gael blaenoriaeth i wneud y gweithredoedd hyn?

C12. Pa gamau a chymorth yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ddylai yn eich barn chi gael blaenoriaeth?

Dylid darllen ein hymateb i’r cwestiwn hwn yng nghyd-destun ein hymateb i gwestiwn 1 uchod. Yno rydym yn egluro mai cynnig gwelliannau y gallai’r Llywodraeth eu cyflwyno er mwyn prif ffrydio’r Gymraeg o fewn y Cynllun presennol yr ydym wrth ateb y cwestiwn hwn. Fodd bynnag rydym yn nodi bod angen i’r Llywodraeth sicrhau bod y Cynllun yn ei hanfod yn cwrdd â holl amcanion y Ddeddf Amaeth gan gynnwys yr amcan o ‘gynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd’.

Roedd ein hymateb i'r ymgynghoriad *Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Amlinellol ar gyfer 2025* yn awgrymu y dylai’r Llywodraeth annog ffermwyr sy’n siaradwyr Cymraeg, ac sy’n dewis cynnal y weithred opsiynol o “ymweliadau gofal ac addysgol â’r fferm”, i ddarparu ymweliadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’n siom gweld nad yw’r cyngor yma wedi ei ddefnyddio, oherwydd credwn fod cyfle yma i brif ffrydio’r Gymraeg yng nghorff y Cynllun, a chyfle gwirioneddol i annog ffermwyr i wireddu amcanion y Ddeddf o gefnogi'r Gymraeg o fewn cyd-destun amaethyddol mewn modd uniongyrchol.

Yn yr adran am ddiogelu diwylliant a threftadaeth sydd ynghlwm wrth ffermio yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Ddeddf, nodir mai agwedd arbennig o’r gymuned ffermio Gymraeg ei hiaith yw ei “thafodieithoedd a therminoleg sy’n benodol i’r sector yn y Gymraeg a ddefnyddir gan ffermwyr a’u teuluoedd”. Dylid hefyd gynnwys enwau lleoedd a nodweddion tirweddol yn yr wybodaeth ieithyddol werthfawr sydd gan ffermwyr fel rhan o’r rhestr o weithredoedd opsiynol. Dylid cefnogi ffermwyr i rannu’r wybodaeth honno a’u cydnabod am wneud hynny, a chynorthwyo ffermwyr nad ydynt yn gallu siarad Cymru i ddod yn ymwybodol o’r cyfoeth gwybodaeth am eu fferm sy’n deillio o’r enwau tirweddol sy’n gysylltiedig â hi. Byddai hyn yn cyd-fynd â rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru lle nodir y bydd y Llywodraeth yn ‘gweithredu i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg’.

Dylai’r Cynllun annog a chefnogi ffermwyr i ddefnyddio’r Gymraeg fel arf marchnata unigryw a all gynyddu potensial y farchnad trwy wneud i gynnyrch sefyll allan, atgyfnerthu tarddiad lleol cynnyrch ac ymddangos yn arwydd o ansawdd.

Mae ein sylwadau uchod yn amlinellu camau cymorth y gellid eu cynnwys yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol. Er hynny, credwn y byddai’n well cynnwys y camau yma o dan y weithred cyffredinol UA14 o fewn y cynllun. Petai UA14 yn cael ei ehangu o “amgylchedd hanesyddol – cynnal a gwella” i “Amgylchedd hanesyddol **a diwylliannol** – cynnal a gwella”, byddai’n haws cynnwys gweithredoedd allai gyfrannu at wireddu un o amcanion y Ddeddf, sef cefnogi'r Gymraeg o fewn cyd-destun amaethyddol mewn modd uniongyrchol; yn ogystal â chyfrannu at amcan yr SLM o “warchod a gwella cefn gwlad a’i draddodiadau diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso’r Gymraeg”.

**BPS**

C13. Ydy'ch chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025? Byddan nhw'n cynnwys:

a) Y gyfradd y bydd taliadau BPS yn cael eu lleihau.
b) Cau'r Gronfa Genedlaethol i ymgeiswyr newydd.
c) Trothwyon ar gyfer capio.
d) Gwahardd trosglwyddo a phrydlesu hawliau.

**Rheoliadau**

C14. Hoffem wybod eich barn am yr is-ddeddfwriaeth rydym yn cynnig ei chyflwyno, i 'efnogi'r BPS ac i gyflwyno cynlluniau cymorth o dan bwerau Deddf Amaethydd Cymru (Cymru) 2023.

**Tystiolaeth**

C15. Daw'r gwaith dadansoddi a modelu economaidd i ben yn 2024 gan roi'r dystiolaeth i helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu'n derfynol ar sut i roi'r Cynllun ar waith. Hoffem wybod eich barn am y dadansoddiad presennol a'r dystiolaeth sydd ei hangen.

Roedd yn syndod i ni ddarllen nad oedd y Gymraeg wedi ei hystyried fel rhan o'r gwaith a gomisiynwyd gan y Llywodraeth i asesu'r dystiolaeth ynghylch gwerth cymdeithasol newidiadau mewn cyfalaf naturiol a sut y gellid adlewyrchu hyn yn lefelau talu'r Cynllun. Dylai'r iechyd y Gymraeg o fewn cymunedau amaethyddol wedi bod yn un o'r allbynnau i brofi effeithiau economaidd-gymdeithasol y Cynllun. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym ni wedi'i godi mewn ymgynghoriadau blaenorol, ac mewn gohebiaeth gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd. Ni allwn weld bod dull yn ei le i gasglu a monitro effeithiau'r Cynllun ar y Gymraeg. Byddai hynny felly yn ei gwneud yn anodd adrodd ar sut mae'r Cynllun yn cyflawni amcanion y Ddeddf a'r Cynllun ei hun o safbwynt y Gymraeg. Hoffem wybod sut bydd y Llywodraeth yn mesur cyfraniad y Cynllun tuag at gefnogi Thema 3 strategaeth *Cymraeg 2050* o gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith ac amcanion Deddf Amaethyddiaeth 2023.

**Monitro a gwerthuso**

C16. Hoffem wybod eich barn ynghylch pa wybodaeth a thystiolaeth y dylid eu defnyddio i fonitro a gwerthuso'r Cynllun.

Mae'r astudiaeth effaith ar y Gymraeg yn gwneud y cysylltiad pwysig sydd rhwng y gweithredoedd o fewn Haen Sylfaenol y Cynllun, a'r effaith anuniongyrchol bydd cynnal y gweithredoedd hynny i gefnogi ffermwyr i aros ar y tir yn ei gael ar hyfywedd y Gymraeg o fewn cymunedau gwledig lle mae dwysedd uchel o siaradwyr yr iaith. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu yn gyson i fesur hyfywedd y Gymraeg yn yr ardaloedd gwledig lle mae ffermydd yn derbyn cymorth trwy'r cynllun presennol er mwyn monitro unrhyw newidiadau (fel sydd wedi ei wneud yn yr asesiad effaith ar y Gymraeg). Mae llawer o brosiectau

cyfredol sy’n datblygu’r sail data cenedlaethol ar y Gymraeg, fel y gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a’r Swyddfa Ystadegau Gwladol i wella eu dealltwriaeth o’r prif ffynonellau data gweinyddol ac arolygon a ddefnyddir i lunio ystadegau ar y Gymraeg; gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg; a’r a 'Arolwg Sosioieithyddol o Gymunedau Cymraeg Dwysedd Uchel'. Awgrymwn eich bod yn trafod gyda is-adran y Gymraeg ac ystadegwyr y Llywodraeth i ddeall mwy am y prosiectau yma, ac i drafod sut gall y cynllun hwn gyfrannu atynt.

Yn ein barn ni mae angen i'r Llywodraeth allu dadansoddi unrhyw newidiadau yng nghyd-destun cyflwyno’r Cynllun, a dadansoddi’r effaith posib mae’n ei gael ar amcanion strategaeth Cymraeg 2050, gan ystyried a oes angen gweithredu yn wahanol mewn unrhyw ffordd. Dylai hynny ddigwydd yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Effaith.

Arall

**C17.** Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol [*y mater dan sylw, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ayb*] ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Rydym yn croesawu’r astudiaeth o’r effaith ar y Gymraeg manwl sydd wedi ei pharatoi. Mae’n gwneud y cysylltiad pwysig rhwng y gweithredoedd o fewn Haen Sylfaenol y Cynllun i gefnogi ffermwyr i aros ar y tir, a’r effaith anuniongyrchol y bydd cynnal y gweithredoedd hynny yn eu cael ar hyfywedd y Gymraeg o fewn cymunedau gwledig lle mae dwysedd uchel o siaradwyr yr iaith. Rydym yn cytuno y byddai blaenoriaethu’r egwyddor honno yn cyfrannu at gefnogi Thema 3 strategaeth *Cymraeg 2050,* o gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith. Er hynny, does dim i esbonio sut mae’r Llywodraeth yn bwriadu lliniaru’r effeithiau ar y Gymraeg o’r amcangyfrifon yn yr astudiaeth economaidd, sy’n awgrymu y bydd y Cynllun yn lleihau’r economi wledig ac yn lleihau’r llafur ar ffermydd. Nid ydym eisiau gweld y Cynllun yn arwain at ansefydlogi’r diwydiant a’i gweithwyr, a thrwy hynny ansefydlogi cymunedau sy’n naturiol Gymraeg eu hiaith. Rydym yn gobeithio bydd y Llywodraeth, trwy’r ymgynghoriad a’r ymrwymiad cyhoeddus i ail edrych ar y Cynllun, yn llwyddo i ddarganfod ffyrdd o gryfhau’r Cynllun sy’n bodloni ein pryderon. Yn ei hanfod credwn bod rhaid i’r Llywodraeth sicrhau bod y Cynllun yn cwrdd â holl amcanion y Ddeddf ac yn benodol yr amcan o ‘gynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd’; mae’r asesiad effaith ar y Gymraeg a'r asesiad economaidd yn awgrymu nad yw’n cwrdd â’r amcan hwn ar hyn o bryd fel y nodwn yng nghwestiwn 1.

**C18.** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu [y mater dan sylw, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ayb] er mwyn sicrhau:

- ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Yn ein hymatebion i ymgynghoriadau cynharach ynghylch newidiadau i'r drefn o gyllido'r byd amaeth yng Nghymru rydym wedi bod yn gyson ein barn fod angen i hyfywedd cymunedau Cymraeg fod yn ganolog i'r polisi a'r ddeddfwriaeth. Rydym wedi pwysleisio'r angen i gynllunio'n bwrpasol i hyrwyddo'r Gymraeg, casglu data am y Gymraeg a monitro effaith polisïau. Rydym hefyd wedi tynnu sylw at werth y Gymraeg fel arf marchnata unigryw a all gynyddu potensial y farchnad trwy wneud i gynnyrch sefyll allan, atgyfnerthu tarddiad lleol cynnyrch a bod yn arwydd o ansawdd. Roeddem yn falch felly fod Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (y Ddeddf) yn nodi bod 'cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd' yn un o'i hamcanion a bod yr amcan hwnnw yn cael ei adlewyrchu fel un o ganlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy yn y cynllun ffermio cynaliadwy. Mae'n siomedig felly fod asesiad effaith y Cynllun a'r asesiad economaidd yn awgrymu y bydd y cynllun yn tanseilio'r Gymraeg.

Mae cyfle wedi'i golli i gynnig dull o wireddu un o amcanion Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn y cynllun fel y mae. Mae hefyd gyfle wedi'i golli i gyfrannu at amcan y *Fframwaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy* (SLM) o "warchod a gwella cefn gwlad a'i draddodiadau diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg". Wrth ichi adlewyrchu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn gofynnwn ichi sicrhau y bydd y Cynllun terfynol yn ei hanfod yn cwrdd â'r amcan uchod a ddim yn tanseilio'r Gymraeg.

Rydym hefyd yn ein hymatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad yn awgrymu dulliau eraill o gynnwys y Gymraeg yn y Cynllun drwy ddiwygio'r gweithredoedd cyffredinol neu'r haenau Opsiynol a Chydweithredol. Mae'r rhain yn cynnwys y pwyntiau isod y gofynnwn ichi eu hystyried:

- Esbonio o dan y weithred gyffredinol UA2 bod gwella sgiliau yn y Gymraeg yn gallu cyfrannu at ddatblygiad personol parhaus ffermwyr
- Ehangu UA14 o "amgylchedd hanesyddol – cynnal a gwella" i "Amgylchedd hanesyddol **a diwylliannol** – cynnal a gwella", er mwyn hwyluso cynnwys gweithredoedd gallai gyfrannu at wireddu amcanion y Ddeddf a'r SLM yng nghyd-destun y Gymraeg
- Annog ffermwyr sy'n siaradwyr Cymraeg, ac sy'n dewis cynnal y weithred o "ymweliadau gofal ac addysgol â'r fferm", i ddarparu ymweliadau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Annog a chefnogi ffermwyr i ddefnyddio'r Gymraeg fel arf marchnata unigryw a all gynyddu potensial y farchnad trwy wneud i gynnyrch sefyll allan, atgyfnerthu tarddiad lleol cynnyrch ac ymddangos yn arwydd o ansawdd

- Cefnogi ffermwyr i rannu gwybodaeth ieithyddol werthfawr sydd gan ffermwyr am dafodieithoedd, terminoleg, enwau lleoedd a nodweddion tirweddol sy’n benodol i’r sector amaeth yn y Gymraeg
- Cynorthwyo ffermwyr nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg i ddod yn ymwybodol o’r cyfoeth gwybodaeth am eu fferm sy’n deillio o’r enwau tirweddol sy’n gysylltiedig â hi
- Manylu pa dystiolaeth fydd yn cael ei chasglu i fesur hyfywedd y Gymraeg yn yr ardaloedd gwledig lle mae ffermydd yn derbyn cymorth trwy’r cynllun, sut bydd y wybodaeth yn cael ei fonitro, a chyhoeddi’r canlyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Effaith.

C19. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar unrhyw agwedd ar y ddogfen ymgynghori hon?